

DOGFENNAU SY'N MYND GYDA'R BIL
Caiff Nodiadau Esboniadol a Memorandwm Esboniadol eu hargraffu ar wahân.

Bil yr Undebau Llafur (Cymru)

[FEL Y'I CYFLWYNWYD]

CYNNWYS

- 1 Diwygiadau i Ddeddf yr Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cydgrynhoi) 1992
- 2 Dod i rym
- 3 Enw byr

Bil yr Undebau Llafur (Cymru)

[FEL Y'I CYFLWYNWYD]

Deddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru i wneud darpariaeth ynghylch gweithredu diwydiannol a gweithgarwch undebau llafur mewn perthynas â gweithrediadau awdurdodau cyhoeddus datganoledig a'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt.

Gan ei fod wedi ei basio gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac wedi derbyn cydsyniad Ei Mawrhydi, deddfir fel a ganlyn:

1 Diwygiadau i Ddeddf yr Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cydgrynhoi) 1992

(1) Mae Deddf yr Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cydgrynhoi) 1992 (*Trade Union and Labour Relations (Consolidation) Act 1992 (c.52)*) (fel y'i diwygir gan Ddeddf yr Undebau Llafur 2016 (*Trade Union Act 2016 (c.15)*)) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn adran 116B (cyfyngu ar ddiwynnu taliadau tanysgrifio i undebau o gyflogau yn y sector cyhoeddus), ar ôl is-adran (3) mewnosoder –

“(3A) But regulations under subsection (3) may not specify –

(a) a devolved Welsh authority, or

(b) a description of public authority that applies to a devolved Welsh authority.”.

(3) Yn adran 172A (gofynion cyhoeddi o ran amser cyfleuster), ar ôl is-adran (2) mewnosoder –

“(2A) But regulations under subsection (1) may not specify –

(a) a devolved Welsh authority, or

(b) a description of public authority that applies to a devolved Welsh authority.”.

(4) Yn adran 226 (gofyniad i undeb llafur gynnal pleidlais cyn gweithredu), ar ôl is-adran (2E) mewnosoder –

“(2EA) But regulations under subsection (2D) may not specify services provided by a devolved Welsh authority.”

(5) Ar ôl adran 297 mewnosoder –

“297A Devolved Welsh authorities

For the purposes of this Act a “devolved Welsh authority” has the same meaning as in section 157A of the Government of Wales Act 2006 (c.32).”

(6) Yn adran 299 (mynegai o ymadroddion a ddiffinnir) ychwaneger “devolved Welsh authority” ac (yn y golofn gyfatebol) “section 297A”.

2 Dod i rym

(1) Daw'r darpariaethau yn adran 1 i rym ar ddiwrnod (neu ddiwrnodau) a bennir gan Weinidogion Cymru drwy orchymyn a wneir gan offeryn statudol (a daw'r adran hon ac adran 3 i rym ar y diwrnod ar ôl i'r Ddeddf hon gael y Cydsyniad Brenhinol).

5 (2) Caiff gorchymyn o dan yr adran hon wneud darpariaeth drosiannol, ddarfodol neu arbed.

3 Enw byr

Enw byr y Ddeddf hon yw Deddf yr Undebau Llafur (Cymru) 2017.